# Dyfais emboleiddio Pipeline Flex â Thechnoleg Warchod ar gyfer trin ymlediadau mewngreuanol

30 Mai 2012

Mae NICE wedi asesu'r ddyfais emboleiddio Pipeline er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn.

Defnyddir y ddyfais emboleiddio Pipeline i drin chwyddau sy'n debyg i falŵn mewn pibellau gwaed yn yr ymennydd. Cyfeirir at y rhain fel ymlediadau mewngreuanol. Os na chânt eu trin, gall ymlediadau mewngreuanol dorri gan achosi gwaedu yn yr ymennydd. Mae'r ddyfais emboleiddio Pipeline yn ynysu'r ymlediad er mwyn sicrhau nad yw gwaed yn llifo drwy'r rhan hon o'r bibell waed sydd wedi'i chwyddo. Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio dyfais emboleiddio Pipeline i drin ymlediadau mewngreuanol cymhleth enfawr neu fawr na ellir eu trin â llawdriniaeth, ac y byddent fell arall yn cael eu trin â thriniaeth arall, a elwir yn goil a gynorthwyir gan stent, gan ddefnyddio nifer fawr o goiliau.

Mae'n bosibl y bydd timau ysbytai am ddefnyddio dyfais emboleiddio Pipeline gan fod y dystiolaeth yn dangos ei bod yn effeithiol ac yn ddiogel, a gall gostio llai mewn rhai sefyllfaoedd.

ISBN: 978-1-4731-7583-9



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.